**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2009**

**YR OPSIYNAU AR GYFER CYLLIDEB 2010/11**

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r papur hwn yn adeiladu ar y papur blaenorol a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 29ain o Orffennaf, 2009. Mae'n ceisio ymhelaethu ar y pwysau hysbys arwyddocaol a fydd ar y gyllideb yn 2010/11 a thu hwnt. Nodir y pwysau hyn yn nhabl A. Gofynnir i'r Aelodau nodi'r cynnydd canrannol darbodus ar gyfer dyfarniadau cyflogau a chwyddiant y gellid eu hymgorffori o fewn y gyllideb yn 2010/11.

## Y Cefndir

2 Mae'r adroddiad yn rhestru'r pwysau a fydd ar y gyllideb y flwyddyn nesaf, a hynny er mwyn cynorthwyo proses yr Awdurdod Tân ac Achub o osod y gyllideb, a chynyddu ymwybyddiaeth yr Aelodau o'r codiadau a amcangyfrifir sy'n wynebu'r Awdurdod yn y flwyddyn i ddod yng ngoleuni setliadau isel y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer yr Awdurdodau Cyfansoddol.

3 Y pwynt cychwynnol yw'r gyllideb refeniw ar gyfer 2009/10, sef £31.312m, a oedd yn gynnydd o 3.21% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol i benderfyniad gael ei wneud wrth osod cyllideb 2009/10 i beidio â defnyddio'r darpariaethau yn sylfaen i'r gyllideb, a thrwy hynny wneud y prosesau o osod cyllidebau yn haws eu rheoli.

4 Os bydd y costau hysbys a restrir isod yn nhabl A yn rhan o gyllideb 2010/11, bydd angen cyllideb o £32.923 miliwn, sef cynnydd o 5.14%. Rhaid ystyried hyn yng ngoleni setliadau'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer Gogledd Cymru, sydd rhwng 1.5% a 3.7% ar gyfer yr Awdurdodau Unedol.

**Pwysau nad oes modd eu hosgoi**

5 Mae'r dyfarniadau cyflogau'n cael eu negodi a'u cytuno ar lefel genedlaethol. Mae'r llywodraeth ganolog wedi datgan mai 2% neu'n is y dylai dyfarniadau cyflog yn y sector cyhoeddus fod. Fodd bynnag, fe allai'r hinsawdd economaidd gynyddu'r galw am setliadau uwch. Rydym wedi rhagdybio chwyddiant cyflogau o ddim ond 1.25% wrth lunio'r amcangyfrif hwn, a hynny'n seiliedig ar y dyfarniad cyflog ar gyfer diffoddwyr tân eleni. Y perygl yw y bydd angen i'r Gwasanaeth ddod o hyd i £237,000 am bob 1% yn uwch y cytunir arno.

6 Amcangyfrifir mai'r cynnydd mewn taliadau Cyfalaf a llog a dderbynir ar gyfer 2010/11 fydd £84,000. Mae'r cynnydd bychan o ganlyniad i gyfraddau llog isel ar fenthyciadau a rhoi'r rhaglen gyfalaf ar waith fesul cam. Mae hefyd yn cynnwys arbedion o ran costau prydlesu wrth i gytundebau prydlesu ddod i ben a dechrau ar yr ail gyfnod prydlesu, ac yn adlewyrchu newid yr Awdurdod o brydlesu asedau i fenthyca. Fodd bynnag, mae'r llog i'w dderbyn wedi ei ostwng o £200,000 i £50,000, a hynny hefyd o ganlyniad i'r cyfraddau llog isel cyfredol.

7 Ar hyn o bryd, mae'r chwyddiant ar danwydd a nwyddau a gwasanaethau eraill yn anodd iawn eu rhagweld. Petai'r aelodau'n dymuno, gellid rhewi'r gwariant nad ydynt yn ymwneud â chyflogau, heblaw am gostau ynni lle awgrymir £24,000 yn rhagor. Fodd bynnag, y perygl yw y byddai angen £152,000 arall petai'r holl wariant cyllidebol eraill yn cynyddu 2% ar gyfartaledd.

8 Mae cost refeniw y seilwaith TGCh newydd hefyd yn bwysau ar gyllideb 2010/11, ac amcangyfrifir mai £535k fydd hyn.

9 Ar yr adeg hon, nid yw cost refeniw Firelink, y system radio newydd a gaiff ei chyflwyno yn Nhachwedd 2009, yn wybyddus,

ond gellid amcangyfrif ei bod rhwng £500k a £1m. Fodd bynnag, mae'r gwaith negodi'n mynd yn ei flaen gyda Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu cyllid ar gyfer blwyddyn gyntaf y cynllun.

10 Mae'r gwaith yn dal i fynd yn ei flaen ar y Prosiect Gwerthuso Swyddi ar gyfer yr holl staff cefnogol. Trwy reoli llinellau gwariant eraill o fewn cyllideb 09/10, mae swm o £169,000 wedi ei neilltuo i gwrdd â'r costau ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae'n amhosib mesur y costau cynyddol, ac fe allai hyn fod yn annigonol i ymorol am bob cynnydd mewn graddfa a chostau diogelu cyflogau.

11 Ni chafwyd arwydd pendant eto o pryd y bydd asedau ac offer y Dimensiwn Newydd yn cael eu trosglwyddo i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Yr enw am y prosiect hwn yw Gwasanaeth Rheoli Galluoedd Hirdymor . Tan inni gael gwybod y dyddiad hwn, ni allwn ond cymryd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ariannu'r gwaith hwn trwy grantiau uniongyrchol.

## 12 Tabl A: Y Pwysau ar y Gyllideb

| Pwysau | Disgrifiad | Y gost £'000 | % y cynnydd |
|---|---|---|---|
| **1. Cyflogau** | Defnyddiwyd rhagdybiaeth o 1.25%. | **293** | **0.94%** |
| **2. Costau eraill** | Costau ynni uwch. | **24** | **0.08%** |
| **3. Taliadau cyfalaf a cholli llog ar arian cadw.** | Taliadau nad oes modd eu hosgoi yw'r rhain am fenthyca arian ar gyfer cyfalaf. Mae'r llog a delir ar arian mewn cyfrifon arian cadw yn is nag a ddisgwylid pan osodwyd y gyllideb y llynedd. | **84** | **0.27%** |
| **4. Chwyddiant cyffredinol @ 2.3%** | Defnyddir Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan mai dyma'r mynegai mwyaf macro-economaidd (cyfradd Ebrill 09). | **175** | **0.56%** |
| **5. Firelink** | Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i ariannu costau'r ail gam, ond bydd angen cynnwys costau pellach yng nghyllideb | **500** | **1.60%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2010/11. Nid yw'r costau refeniw yn hysbys eto, ond rywle rhwng £500K a £1 miliwn. | | |
| **6. TGCh** | Mae cyflwyno Firelink wedi arwain at ofynion ychwanegol o ran refeniw i gefnogi'r seilwaith TGCh. Bydd prosiectau eraill yn parhau i olygu gwariant cyfalaf, megis System Rheoli Cofnodion Tân a Diweddariadau i'r Rhwydweithiau. | **535** | **1.69%** |
| **7. Gwerthuso swyddi** | Neilltuwyd swm o £169,195 ar gyfer costau. | **0** | |
| **8. Rheoli Galluoedd Hirdymor** | Trosglwyddo asedau ac offer y Dimensiwn Newydd i'r Awdurdodau Tân ac Achub. | **?** | |
| **CYFANSWM** | | **1,611** | **5.14%** |

**Argymhellion**

13 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r pwysau uchod a'r gofynion ar y gyllideb.
(ii) nodi'r risgiau sydd ynghlwm â phob rhagdybiaeth o ran cynllunio.